



## Ysgol Pentreuchaf

### 43. Polisi Cynhwysiad

#### Nod

Mae holl bolisiau'r AAL yn amcanu tuag at gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig oddi mewn i ysgolion prif-lif, cyn belled ag y bo modd diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus o dan amgylchiadau o'r fath.

#### Amcanion

Rydym yn ymdrechu i fod yn ysgol gynhwysol gan weithio'n bwrpasol i ddiddymu unrhyw rwystrau a galluogi pob plentyn i fanteisio ar yr hyn sydd gennym i'w gynnig.

#### Canllawiau

1. Ymdrinir â darpariaethau addysgol arbennig yn ôl y mathau o anawsterau dysgu a ddisgrifir yn y 'Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru' ac a fabwysiadwyd yn y ddogfen 'Meini Prawf ar gyfer Gwneud Asesiad Statudol o Anghenion Addysgol Arbennig'.
2. Cynhyrchwyd y polisi hwn yng nghyd-destun bwriadau'r Llywodraeth fel y cawsant eu mynegu yn y Papur Gwyrdd 'Y Gorau ar Gyfer Addysg Arbennig'.
3. Gan fod amcanion addysg yr un fath i bob plentyn, mae gan blant ag anghenion addysgol arbennig yr un hawl ag eraill i gwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol. Cydnabyddir yr angen i addasu'r cwricwlwm arferol o bryd i'w gilydd er mwyn diwallu'r anghenion addysgol arbennig.
4. Bydd anghenion y mwyafrif yn cael eu diwallu mewn ysgolion prif-lif heb asesiad statudol na datganiad o anghenion addysgol arbennig. Lle bo'n briodol, ac wedi ystyried dymuniadau'r rhieni, bydd disgyblion sy'n destun datganiad hefyd yn cael eu haddysgu ochr-yn-ochr â'u cyfoedion.
5. Cydnabyddir pwysigrwydd rhoddi sylw, lle'n briodol i farn a dymuniadau'r plentyn ei hun.
6. Plant ag AAA heb Ddatganiad, mewn ysgolion prif-lif – rhoddir cymorth i ddisgyblion gan ysgolion yn unol â Chôd Ymarfer AAA Cymru. Bydd seicologwyr addysgol ac athrawon ymgynghorol yn darparu cyngor i fireinio'r Cynllun Addysg Unigol.
7. Plant ag AAA gyda Datganiad, mewn ysgolion prif-lif – rhoddir cefnogaeth, ar ffurf athrawon a chymhorthyddion dosbarth, i nifer fawr o blant sy'n destun Datganiad ac ag amrywiaeth o anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion cynradd. Hefyd, gellir trefnu lleoliadau o fewn Uned i blant y Dalgylch.
8. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer plant ag anabledau corfforol.

#### Casgliad

Os yw'n briodol, byddwn yn ceisio diwallu anghenion pob disgybl o fewn Ysgol Pentreuchaf, unai'n llawn amser, neu'n rhan-amser. Rhaid cofio ystyried dymuniadau'r rhieni a'r plentyn, ond yn y pen draw, lles a datblygiad y plentyn sy'n bwysig, a rhaid i bawb gofio hyn. Dylid darllen y polisi hwn gan gyfeirio hefyd at bolisiau Cyfle Cyfartal, Cydraddoldeb Hiliol, Anghenion Addysgol Arbennig a.y.y.b.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y  
Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**